

# Astudiaeth achos: Defnyddio'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Mae St Andrew yn ysgol gynradd a meithrin cyfrwng Saesneg yng Nghasnewydd ac mae'n rhan o Wasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer de-ddwyrain Cymru. Mae gan yr ysgol 595 o ddysgwyr ar y gofrestr yn ogystal â 78 o blant meithrin rhan amser. Mae 36.2 y cant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM); 36 y cant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); 45 y cant â Saesneg yn iaith ychwanegol (EAL) a 40 y cant yn newydd i Saesneg. Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 54 y cant o fechgyn a 46 y cant o ferched.

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae'r tîm arwain yn cynnwys pedwar aelod o staff. Mae 25 o athrawon cyfwerth ag amser llawn yn Ysgol Gynradd St Andrew, yn ogystal â 32.5 o gynorthwyrwr addysgu cyfwerth ag amser llawn.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Derbyniodd St. Andrew grant dysgu proffesiynol ychwanegol o £11,006 yn 2018/19.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Defnyddiwyd y grant i ganiatáu i arweinwyr a staff addysgu'r ysgol gymryd rhan yn y Rhaglen Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r ysgolion dysgu proffesiynol rhanbarthol. Diben ymwneud â'r rhaglen oedd annog y staff i ymwneud yn fwy â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, datblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu a datblygu'r systemau monitro a gwerthuso ysgol gyfan a fyddai'n cefnogi newid ysgol gyfan i gwricwlwm gweddnewidiol.

Cymerodd arweinwyr yr ysgol ran mewn rhaglen pedwar diwrnod a oedd yn cynnwys gwerthusiad ysgol gyfan ac ymgwymerodd yr arweinwyr â gwaith triad gydag ysgolion eraill. Yn sgil y rhaglen nododd yr ysgol fod angen iddi ddefnyddio arferion proffesiynol i ysgogi addysgeg a bod angen ystyried cyflymder y newid a defnyddio cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn darnau llai o ran maint.

Cymerodd arweinwyr canol ran mewn pedair sesiwn a roddodd gyfle iddynt ymgysgu â'r safonau a hunanfyfrio o ran y llinynnau addysgu ac arwain. Effaith fwyaf cadarnhaol y dysgu proffesiynol hyn oedd cynyddu hyder i fonitro a chymryd rhan mewn deialog broffesiynol ag aelodau eraill o'r staff.

Bu'r staff addysgu yn ymwneud â'r safonau a'r Rhaglen Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth ar lefel symlach, â'r prif bwyslais ar addysgeg. Cawsant gyfle i hunanfyfrio, ac ar sail y canlyniadau a arsylwyd, ymarfer mewn dau leoliad eu llinynyr oedd angen ei ddatblygu fwyaf. Roedd angen i naw o'r deg aelod o staff addysgu a gymerodd ran yn y rhaglen ddatblygu'r gallu i greu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu. Roedd yn rhaid i'r staff ganolbwyntio ar eu harfer eu hunain ac fe'u rhoddwyd mewn grwpiau gyda chymheiriaid i'w herio a'u cefnogi.

## **Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol**

Ymatebodd cydweithwyr yn gadarnhaol i'r cyfle i ymweld â lleoliadau eraill.

Maent yn fwy cyfarwydd â'r safonau proffesiynol ac mae hyn wedi cefnogi'r ysgol wrth reoli'r broses o ddiwygio a chynllunio cwricwlwm yr ysgol gyfan, trwy fod â mwy o ymwybyddiaeth o'r egwyddorion addysgeg a'r pedwar diben.

## **Effaith y grant ar ddysgwyr**

Roedd asesu ar gyfer dysgu yn flaenoriaeth wrth fonitro cynllun gweithredu datblygiad yr ysgol, ac mae'r prosesau gwerthuso wedi dangos effaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu. Parhaodd yr effaith ar ddysgu ac addysgu i gynyddu yn Nhyrnor yr Hydref. Dangosodd y systemau monitro trylwyr fod y dysgwyr yn credu eu bod yn fwy o ran o gynllunio yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Wedi'u hysgogi gan gynllunio datblygiad ysgol, roedd marcio ac adborth wedi'u hadolygu a'u diwygio. Mae hyn wedi arwain at lai o lwyth gwaith ar gyfer yr athrawon ac wedi darparu myfyrdodau mwy pwrpasol a phrydlon ar y dysgu. Roedd hefyd newid nodedig mewn hunanasesu ac asesu cymheiriaid wrth i'r rhain ddod yn rhan fwy annatod o'r dysgu a'r addysgu.

## **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol**

Roedd yr ysgol yn ei chael yn anodd rheoli nifer yr athrawon a oedd allan o'r ysgol ar yr un pryd, ond credwyd bod ymweld â lleoliadau eraill yn fantais.

Gellid ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol ysgol gyfan yn y dyfodol ac er bod y staff yn gwerthfawrogi'r amser ar gyfer dysgu proffesiynol, maent hefyd yn dymuno bod â mwy o ymreolaeth mewn ymchwil a chydweithredu yn y dyfodol.

## **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill**

Credir y dylai'r safonau proffesiynol, y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu ac Arweinyddiaeth (pan fo wedi'i fabwysiadu) a chanlyniadau'r arolwg Ysgolion fel Sefydliad sy'n Dysgu fod yn rhan annatod o weithgareddau dysgu proffesiynol yr ysgol, ynghyd â'r staff yn hunanfyfyrion ac yn cymryd rhan mewn gwaith â chymheiriaid a gwaith triad i gefnogi'r broses.

### **Y camau nesaf**

Y camau nesaf fydd i'r ysgol roi mwy o ymreolaeth i'r staff gymryd rhan mewn ymchwil gweithredu a phwyslais ysgol gyfan ar 'Drywydd Ymholi' fel sail i ymholi proffesiynol.

Caiff yr athrawon eu grwpio yn Gymunedau Dysgu Proffesiynol a byddant yn cael amser a chyfran o'r grant dysgu proffesiynol i ariannu deunyddiau ymchwilio.